# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau Uchaf o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **5 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd** |

**Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau Uchaf o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd (Euratom) 2016/52 sy'n pennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol.

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid ei arfer pe bai damwain niwclear neu argyfwng radiolegol arall, i wneud rheoliadau i bennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a/neu fwyd anifeiliaid o'r ardal dan sylw. Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i ddirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion, sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn neddfwriaeth yr UE Rheoliad (UE) Rhif 2016/52 sy'n pennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol.

Mae Rheoliad 2016/52 yn rhoi pŵer i'r Comisiwn fabwysiadu Rheoliadau Gweithredu. Byddai'r Rheoliadau Gweithredu yn gwahardd bwyd a bwyd anifeiliaid o ardal lle cafwyd damwain niwclear neu argyfwng radiolegol rhag cyrraedd y farchnad yn yr UE os nad yw'n cydymffurfio â'r lefelau uchaf o ymbelydredd a ganiateir a nodir yn y Rheoliadau Gweithredu hynny. Gallai hyn fod ar gyfer categori penodol o fwyd neu fwyd anifeiliaid.

Bydd y Rheoliadau cywiro hyn yn diwygio Rheoliad 2016/52. Bydd hyn yn golygu, yn hytrach na'i gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn wneud Rheoliadau Gweithredu yn achos

damwain niwclear, y bydd dyletswydd yn cael ei rhoi ar Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, i wneud rheoliadau i bennu'r lefelau uchaf o ymbelydredd mewn bwyd a bwyd anifeiliaid o'r ardal yr effeithiwyd arni.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/qpRnR5nO

**Pam rhoddwyd caniatâd**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.